# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Gwener, 18 Chwefror 2022

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), J Hughes, Councillor R Jeavons, P Cockeram, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman and D Davies

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Cadarnhawyd bod cofnodion 14 Ionawr yn gywir.

4 **Strategaeth Gyfalaf a Rheolaeth Trysorlys 2022/23**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet a hysbysai ei chyd-aelodau fod y strategaethau Rheoli Cyfalaf a'r Trysorlys blynyddol, wedi'u dwyn gerbron y cyfarfod hwn o'r Cabinet ar ôl cael eu hadolygu, ac ar ôl derbyn sylwadau arnynt gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr.

Roedd yn ofynnol i'r Cabinet gymeradwyo'r strategaethau cyn eu cyflwyno gerbron y Cyngor llawn i'w cymeradwyo'n derfynol. Roedd yn ofynnol iddynt hefyd gymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf fanwl a oedd wedi'i chynnwys yn un o atodiadau'r adroddiad hwn.

Roedd sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn a, lle bo'n briodol, roedd yr adroddiad wedi'i ddiwygio'n unol â'r sylwadau hynny.

Roedd y ddwy strategaeth yn ofynnol yng Nghod Darbodus CIPFA, yn rhan hollbwysig o gynlluniau ariannol tymor byr, canolig a hir, ac roedd cyswllt annatod rhyngddynt â phroses bennu'r gyllideb refeniw.

Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf oedd disgrifio sut roedd y Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf, ac wrth wneud hynny, dangos bod y penderfyniadau hynny wedi'u gwneud yn unol ag amcanion gwasanaethau a chan roi ystyriaeth i risg, gwobrwyo ac effaith.

Roedd cysylltiad annatod rhwng y Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a oedd ei hun yn trafod ymagwedd y Cyngor at reoli ei arian parod, gan gynnwys, yn bennaf, yr ymagwedd at weithgareddau benthyca a buddsoddi.

Agwedd allweddol ar strategaeth Rheoli'r Trysorlys oedd y terfynau benthyca, a oedd yn y pen draw'n cael eu cymeradwyo gan y Cyngor, ac a oedd yn rhan o'r gyfres o ddangosyddion darbodus sy'n rheoli gweithgareddau rheoli arian parod y Cyngor.

Roedd y Strategaeth Gyfalaf yn ddogfen a ganolbwyntiai ar y tymor hir, gan ystyried y 10 mlynedd nesaf o leiaf. Oherwydd y ffocws hwn ar yr hirdymor, roedd hi'n hanfodol i benderfyniadau adlewyrchu'r angen i gynlluniau cyfalaf fod yn fforddiadwy, yn ddarbodus a chynaliadwy. Yn y bôn, roedd hyn yn golygu'r canlynol:

· Byddai gwariant cyfalaf a ariennir gan ddyled heddiw yn creu ymrwymiad hirdymor i'r Cyngor ad-dalu'r benthyciad hwnnw a'r llog a ddeilliai ohono.
· Byddai'r ymrwymiad hwnnw i dalu costau cyllido cyfalaf yn cael ei gynnwys yn rhan o'r gyllideb refeniw.
· Er y gallai'r ymrwymiad hwnnw fod yn fforddiadwy nawr, roedd yn rhaid gallu cynnal yr ymrwymiad dros y tymor hir.
· Nid oedd modd lleihau nac osgoi costau cyllido cyfalaf, wedi iddynt gael eu cloi i mewn, gan olygu y byddai unrhyw heriau cyllidebol yn y dyfodol yn effeithio ar lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau a blaenoriaethau eraill, yn hytrach nag ar y gyllideb cyllido cyfalaf.

Oherwydd eu pwysigrwydd, roedd sylwebaeth y Pennaeth Cyllid o fewn yr adroddiad yn ymdrin yn benodol â'r ffactorau hyn.

Fel yr amlinellwyd ar y dechrau, er bod y Cabinet yn gwneud penderfyniadau ynghylch y prosiectau sy'n ffurfio'r Rhaglen Gyfalaf, y Cyngor llawn a oedd yn pennu'r terfynau benthyca yr oedd yn rhaid cadw atynt.

Er bod llawer o brosiectau'n cael eu cyllido o ffynonellau fel grantiau, derbyniadau cyfalaf ac o gronfeydd wrth gefn penodol, byddai nifer ohonynt na fyddai modd eu cyllido fel hyn, ac a fyddai yn y pen draw'n cael eu cyllido drwy fenthyca. Gam hynny, roedd angen i'r Rhaglen Gyfalaf gyffredinol gael ei phennu oddi mewn i'r terfynau benthyca hyn.

Mae'r flwyddyn ariannol sydd i ddod (2022/23) yn cynrychioli blwyddyn olaf y Rhaglen Gyfalaf bum mlynedd gyfredol. Fodd bynnag, roedd dwy flynedd wedi'u hychwanegu at y rhaglen i adlewyrchu'r prosiectau hynny a ddechreuwyd yn y rhaglen gyfredol hon ond a oedd yn ymestyn y tu hwnt iddi i'w cwblhau'n ddiweddarach.

Roedd hi'n rhaglen fawr a heriol i'w chyflawni, gan gynrychioli cyfanswm o £288.4m a thros £100m yn 2022/23 yn unig.

Roedd yn cynnwys nifer o'n blaenoriaethau allweddol o ran cyfalaf, yn ogystal â buddsoddiadau fel benthyca ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac elfen o hyblygrwydd o ran benthyca fel bo modd cyllido cynlluniau newydd neu gostau ychwanegol.

Roedd rhai o'r cynlluniau mwy o fewn y rhaglen yn cynnwys:

- £111.7m yn gysylltiedig ag Addysg ac Ysgolion, yr oedd £75m ohono wedi'i gynnwys yn gysylltiedig â chynlluniau Band B y Cyngor ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, a olygai welliant sylweddol i ansawdd ein hadeiladau ysgol.
- Dros £25m o gyllid tuag at Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a oedd yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd aruthrol ar draws y rhanbarth, a oedd o fudd i Gasnewydd.
- Bron i £10m ar gyfer y bont droed newydd yng Ngorsaf Casnewydd
- Dros £12m yn gysylltiedig ag adnewyddu ac adfer y Bont Gludo.
- £19.7m ar gyfer y ganolfan hamdden newydd a fyddai, yn ei thro, yn braenaru'r tir ar gyfer datblygiad newydd Coleg Gwent, a fyddai'n cyfrannu at ddatblygiad Ardal Wybodaeth Casnewydd.

O'r rhaglen gyfan gwerth £288.4m, byddai tua £92m o'r gwariant yn cael ei gyllido drwy ddyled, gan gynyddu'r angen i fenthyca ac achosi i'r Cyngor ymrwymo i fod yn fenthyciwr net dros y tymor canolig i hir.

Mae’r ymrwymiad hwn i fod yn fenthyciwr net wedi'i adlewyrchu yn Nhabl 2 yr adroddiad, sy'n rhoi rhagamcan o'r twf mewn lefelau benthyca cronnus. Rhagwelir y bydd benthyca gwirioneddol yn cynyddu o'r lefel gyfredol o £149m i uchafbwynt o £203m erbyn 2023/24, yn seiliedig ar gyflawni'r rhaglen gyfredol, fel y nodir yn yr adroddiad.

Gall y benthyciadau sydd eu hangen naill ai fod ar ffurf benthyciadau allanol gwirioneddol neu gael eu rheoli drwy ddefnyddio adnoddau arian parod mewnol, a elwir yn fenthyca mewnol. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gynyddu ei gapasiti benthyca mewnol hyd yr eithaf, gan leihau'r angen i ysgwyddo'r costau'n gysylltiedig â benthyciadau allanol yn sgil hynny.

Fel yr adlewyrchir yn y rhagolygon yn yr adroddiad hwn, disgwylir y bydd y lefel benthyca fewnol, a gynrychiolir gan lefel y cronfeydd arian parod a ddelir, oddeutu £100m wrth fynd i mewn i 2022/23.

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu mai dyma werth hanesyddol gwariant cyfalaf a gyllidir drwy ddyled, ac a gyllidwyd drwy fenthyca mewnol. Fodd bynnag, mae'r capasiti ar gyfer benthyca mewnol bellach yn lleihau, wrth i gronfeydd wrth gefn clustnodedig gael eu defnyddio. O ganlyniad i hyn, bydd yr angen i fenthyca'n allanol yn cynyddu i gyllido'r gwariant hanesyddol hwn, i bob pwrpas.

Yn ogystal â hyn, bydd unrhyw wariant cyfalaf yn y dyfodol, naill ai o fewn y rhaglen bresennol neu'r rhaglen nesaf, yn arwain at ofyniad i fenthyca mwy, a bydd yn ychwanegu at gyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf. Mae hyn yn ein hatgoffa fod angen inni ystyried fforddiadwyedd, darbodusrwydd a chynaliadwyedd wrth wneud penderfyniadau.

Mae Tabl 3 yr adroddiad yn dangos effaith yr angen i fenthyca ar y gyllideb refeniw. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r benthyciad sydd ei angen ar gyfer y rhaglen bresennol, a elwir yn gostau cyllido cyfalaf, eisoes wedi'u cyllido'n llawn, yn sgil y setliad cyllid gwell na'r disgwyl o 2021/22.

Fodd bynnag, yn sgil datblygu rhaglen gyfalaf newydd o 2023/24, gallai'r angen i fenthyca dyfu eto, a bydd hi'n bwysig gallu talu'r costau sy'n deillio o fenthyciadau pellach oddi mewn i'r gyllideb refeniw.

Mae cyfran y gyllideb refeniw a neilltuwyd ar gyfer costau cyllido cyfalaf eisoes yn gymharol uchel o gymharu â chynghorau tebyg yng Nghymru, felly bydd hi'n bwysig i'r rhaglen newydd fod yn gynaliadwy a sicrhau nad yw'n cael effaith anghymesur ar y gyllideb refeniw.

Strategaeth Rheoli'r Trysorlys

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn ymwneud yn bennaf ag ymagwedd y Cyngor at fenthyca a buddsoddi, ac mae'n cynnwys nifer o ddangosyddion darbodus allweddol.

O ran benthyca, fel y nodwyd eisoes, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn fenthyciwr net dros y tymor canolig i hir. Y strategaeth a ffafrir yw cynyddu lefel y benthyciadau mewnol hyd yr eithaf, er bod disgwyl i'r capasiti hwn leihau o'r naill flwyddyn i'r nesaf. Gan hynny, byddwn yn cyrraedd sefyllfa lle bydd angen benthyciadau allanol gwirioneddol i fodloni gofynion llif arian gweithredol.

Fodd bynnag, er y bydd y Cyngor yn gohirio'r angen i fenthyca gyhyd ag y bod modd, efallai y bydd yn penderfynu benthyca'n fuan er mwyn sicrhau cyfraddau llog ffafriol, ar yr amod bod hynny'n fforddiadwy ac o fewn y terfynau benthyca cytunedig. Ni fyddai'r Cyngor ond yn cymryd y cam hwn yn unol â chyngor gan ein Cynghorwyr Trysorlys.

O ran buddsoddi, yr amcan wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion - hynny yw, lleihau hyd yr eithaf y risg o greu colledion yn sgil diffygdaliadau a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi amhriodol o isel.

Fel yr amlinellwyd yn strategaeth y llynedd, mae'r Cyngor yn bwriadu amrywiaethu ei fuddsoddiadau i wahanol ddosbarthiadau ased, er mwyn cynyddu adenillion hyd yr eithaf gan liniaru rhag y risg a'r arenillion isel yn gysylltiedig â buddsoddiadau banc diwarant. Cafodd y newid hwn mewn ymagwedd ei ohirio oherwydd ansicrwydd yr hinsawdd economaidd yn sgil y pandemig.

<u>Penderfyniad:</u>
Bod y Cabinet yn argymell y canlynol i'w cymeradwyo gan y Cyngor:

i) Y Strategaeth Gyfalaf (Atodiad 2), gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig oddi mewn iddi (a ddangosir ar wahân yn Atodiad 1), a'r gofynion/terfynau benthyca sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen arfaethedig.

ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Ddarpariaeth Refeniw Isafswm (DRI) ar gyfer 2022/23. (Atodiad 3)

iii) Yn rhan o'r uchod:

a. Nodi'r cynnydd mewn dyled a'r gost refeniw yn gysylltiedig â hyn, wrth gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol, a goblygiadau hyn dros y tymor byr a chanolig o ran fforddiadwyedd, darbodusrwydd a chynaliadwyedd.

b. Nodi argymhelliad y Pennaeth Cyllid i'r Cyngor, fod angen cyfyngu ar fenthyca i'r hyn sydd wedi'i nodi yn y Rhaglen Gyfalaf gyfredol, a'r dangosyddion darbodus a argymhellir ar gyfer terfynau benthyca er mwyn cyflawni hyn.

c. Nodi'r gofyniad i reoli a chyfyngu ar wariant a gyllidir gan ddyled y tu hwnt i gyfnod y rhaglen bresennol, i ddibenion cynaliadwyedd, gan roi sylw arbennig i ddatblygiad y Rhaglen Gyfalaf newydd.

ch. Nodi'r newidiadau i'r Cod Darbodus a Chod Rheoli'r Trysorlys, ac effaith y newidiadau hynny ar ymagwedd y Cyngor at fuddsoddi cyfalaf a rheoli'r trysorlys.

d. Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio ar 27 Ionawr 2022 (paragraff 6).

5 **Cyllideb Refeniw a CATC: Cynigion Terfynol 2022/23**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a hysbysai'r Cabinet ynghylch y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac adroddiad cyllideb refeniw 2022/23. Dyma oedd un o adroddiadau pwysicaf y Cyngor, ac roedd angen ei ystyried yn ofalus.

Roedd yr adroddiad yn cynrychioli penllanw chwe mis o waith caled, o adolygu a chytuno ar ragdybiaethau cyllidebol yn sail ar gyfer ein gwaith cynllunio, hyd at y cam terfynol hwn lle byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i'n blaenoriaethau allweddol.

Roedd proses y gyllideb yn wynebu heriau eleni. Roedd y Cyngor nid yn unig ar drothwy'r drydedd flwyddyn o weithio drwy'r pandemig a'r holl broblemau cysylltiedig, ond roedd drafft setliad Llywodraeth Cymru, sy'n cyllido 76% o'r gyllideb, wedi'i dderbyn yn hwyr iawn ar 21 Rhagfyr. Roedd hyn yn golygu na ellid cwblhau'r gwaith terfynol a manwl yn gysylltiedig â'r gyllideb o fewn yr amserlen arferol.

Roedd setliad eleni, fodd bynnag, yn cynnwys setliad cyllido aml-flwyddyn, a oedd yn cynnig lefel resymol o sicrwydd. Roedd cynnwys gwerthoedd dangosol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn cefnogi ein capasiti i gynllunio am y tymor hir.

Roedd y setliad a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn llawer uwch na'r hyn a oedd wedi'i gynnwys yn y rhagdybiaethau cynllunio, gan olygu nad oedd angen canfod unrhyw arbedion newydd o fewn y gyllideb.

Adroddwyd 'balans mewn llaw' yng nghyfarfod mis Ionawr y Cabinet, ac roedd yr adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r buddsoddiadau a fyddai'n cefnogi blaenoriaethau allweddol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi adborth manwl o'r broses ymgynghori.
Bu'r Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd â materion cyd-destunol eraill allweddol, a byddai'n pennu ein meysydd buddsoddi yng nghyllideb 2022/23.

Nid oedd y Dreth Gyngor ond i gyfrif am 24% o'r cyllid yng nghyllideb refeniw'r Cyngor, ond roedd yn dal i fod yn rhan hollbwysig o gyllid cyffredinol y Cyngor.

Nid oedd y Cyngor Llawn ond yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch lefel y Dreth Gyngor.

Roedd Grant Cynnal Refeniw'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol, bron £25m, ond roedd hyn ar yr amod bod y Cyngor yn talu amryw o bwysau o ran costau a buddsoddiadau wedi'u pennu gan ddylanwadau allanol, gan gynnwys y canlynol ymhlith eraill:
- costau ychwanegol cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal o 1 Ebrill 2022
- y costau'n gysylltiedig â chytundeb cyflogau'r athrawon
- y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o fis Ebrill 2022
- rheoli effeithiau gweddilliol parhaus costau uwch a'r gostyngiad mewn incwm yn sgil pandemig Covid, gan gydnabod na fyddai'r gronfa galedi yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon.

Bu'r Cyngor yn ymgynghori ar gynnydd o 3.7% i'r Dreth Gyngor a oedd yn ychwanegu £2.7m o gyllid posibl ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf. Fel cyfanswm, cafwyd cynnydd o £27.5m i gyllid ein cyllideb ddrafft.

- Roedd rhai buddsoddiadau cychwynnol mewn cyllidebau drafft yn amlygu'r canlynol fel blaenoriaethau allweddol:

atal ac ymyrraeth gynnar
- canol ein dinas
- ein hysgolion

Roedd y gyllideb ddrafft yn nodi:
- £3.2m i gefnogi ein gweithwyr gofal, gan sicrhau eu bod yn cael y ‘Cyflog Byw’

- bron i £1m i gefnogi ein hoedolion mwyaf agored i niwed ag anawsterau dysgu
- bron i £900k i hyrwyddo cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim
- bron i £400k ar gyfer gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar o fewn ein hadrannau

Addysg a Gofal Cymdeithasol, gan adeiladu ar gynnydd sylweddol iawn mewn cyllid ysgolion, yn ogystal â chyllid penodol i helpu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol yn ein hysgolion.

Roedd Tabl un yr adroddiad yn dangos bod £3.3m o adnoddau ar gael mewn llaw yng ngham y gyllideb ddrafft, ac roedd newidiadau pellach i broffiliau buddsoddi wedi peri i'r 'balans mewn llaw' ar gyfer adnoddau i'w dyrannu gynyddu bron i £3.9m.

2022/23
£'000
Balans diwygiedig mewn llaw (£3,892k)
Buddsoddiadau newydd:
GOFAL CYMDEITHASOL

Mae cynnal ein darparwyr gofal hanfodol ym maes gofal cymdeithasol yn gryn her. Yn ogystal â sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol. Gan hynny, ceir darpariaeth ychwanegol o £1.1m ar gyfer risg bosibl o gostau parhaus yn ein sector Gofal Cymdeithasol, yn dilyn heriau'n deillio o Covid a Brexit. Byddai creu cyllideb uwch barhaol yn y maes hwn o gymorth i sicrhau bod cyllidebau'n gadarn, o gymorth i liniaru'r risgiau hyn ac, yn hollbwysig, yn fodd i sicrhau ein bod yn cyllido'r gofal gorau posib i'n preswylwyr mwyaf agored i niwed.

Roedd galw o fewn y gwasanaethau cymdeithasol ac ym maes gofal yn her wirioneddol yn deillio o heriau'r ddwy flynedd ddiwethaf. Byddai buddsoddiad pellach mewn gofal cymdeithasol yn creu capasiti ychwanegol o fewn timau i gefnogi ein preswylwyr agored i niwed - mae'r buddsoddiad hwn o £191k yn cefnogi 6 swydd ychwanegol. Byddai un o'r swyddi hyn yn rheoli'r gwasanaethau cysylltwr cymunedol, sef gwasanaeth ymyrryd ac atal allweddol, a oedd yn cyfeirio unigolion i wasanaethau a oedd ar gael o fewn y gymuned a oedd yn bodloni eu hanghenion.

Roedd buddsoddiadau ychwanegol mewn cyllidebau gofal cymdeithasol yn dangos ymrwymiad parhaus i'r maes hwn, wrth iddo ymdrin â galw a heriau parhaus. Roedd gofalu am aelodau mwyaf agored i niwed ein cymunedau yn flaenoriaeth, yn enwedig drwy ymyrryd yn gynnar lle bo angen ac atal yn y lle cyntaf lle bynnag y bo hynny'n bosib.

£1,110k

£191k

CANOL Y DDINAS

Roedd y Cabinet eisiau buddsoddi ymhellach i gael effaith gadarnhaol ar ganol y ddinas ac ar y busnesau oddi mewn i'r ardal honno. Y benodol, hyrwyddo'r ddinas, marchnata, buddsoddi mewnol, cydgysylltu gweithgareddau a digwyddiadau, twristiaeth a'r amgylchedd cyffredinol oddi mewn i'r ddinas ac yn y cyffiniau.

Gan hynny, roedd buddsoddiad o £377k mewn nifer o feysydd allweddol â blaenoriaeth yn cynnwys:

- Buddsoddiad ychwanegol o £198k yn y gwasanaethau glanhau er mwyn gwella'r ddarpariaeth glanhau yng nghanol y ddinas.
- £38k i greu capasiti i ddatblygu a gweithredu strategaeth ddiwylliannol gan gryfhau arlwy diwylliannol Casnewydd
- Buddsoddi £49k mewn rôl rheolwr canol y ddinas, fel bo modd cydgysylltu holl waith y Cyngor a phartneriaid yn well yng nghanol y ddinas, gan gynnwys cysylltu â busnesau.
- Buddsoddiad o £92k i reoli cyrchfan a sicrhau ein bod yn 'marchnata'r ddinas yn gadarn ac yn cynyddu ei photensial i fusnesau, ymwelwyr a phreswylwyr hyd yr eithaf.

Yn ogystal â'r rhain, ni fyddai'r Cabinet yn cynyddu ffioedd a thaliadau'r Cyngor am barcio ceir yng nghanol y ddinas na thrwyddedu lleoliadau am gael seddau y tu allan.

£377k

ARALL

Dyma'r materion a wnaeth wahaniaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a'r materion a oedd o bwys gwirioneddol i'n preswylwyr:

- Buddsoddi £255k i gynnal a chadw ein parciau, ein hardaloedd chwarae a'n hoffer chwarae. Yn ogystal â buddsoddiad untro sylweddol i wella ein stoc o ardaloedd chwarae hyd at lefel dderbyniol, bydd y gyllideb hon yn creu capasiti i gynnal a chadw a chyfnewid cyfarpar yn dilyn hynny.

- Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran cartrefu cysgwyr allan dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac wrth ymdrin â galw cyffredinol o fewn y gwasanaethau digartrefedd, gyda chymorth Cronfa Galedi LlC. Bydd LlC yn parhau i ddarparu cyllid penodol, a byddwn yn buddsoddi £34k i ychwanegu at hynny, a fydd yn ein galluogi i barhau â'n darpariaeth a'n cefnogaeth gyfredol i breswylwyr agored i niwed yn y maes hwn.

- Mae angen dybryd i'r Cyngor hwn chwarae ei ran a lleihau ei ôl troed carbon. Rydym eisoes yn gwneud llawer ac yn cynnig buddsoddi £153k a chynyddu'r capasiti i ddatblygu a gweithredu cynlluniau yn y dyfodol er mwyn gwireddu ein huchelgais sero net.

- Mae ein record ailgylchu eisoes yn dda iawn, a gallwn wella hyn eto. Byddwn yn buddsoddi £55k i greu'r capasiti i gefnogi ac annog ymgysylltiad gwell gan breswylwyr mewn fflatiau a thai amlbreswyl er mwyn ymdrin â phroblemau gwastraff a hyrwyddo ailgylchu.

Yn ogystal â chynyddu adnoddau staff i ychwanegu capasiti yn y meysydd allweddol a amlinellwyd eisoes, byddwn yn darparu capasiti o £466k mewn nifer o feysydd eraill er mwyn

gwella gwaith i fonitro ein rhaglen gyfalaf, yn ein swyddogaeth cynllunio priffyrdd, ein gwasanaethau gwastraff, ein gwasanaeth cofrestru etholiadol a iechyd yr amgylchedd.

Yn unol ag adran 6 o'r adroddiad yma, byddwn hefyd yn buddsoddi £500k er mwyn helpu i reoli'r risgiau ariannol yn gysylltiedig â sgil-effeithiau Covid a'r ffaith na fydd Cronfa Galedi ar gael o 2022/23. Bu'r gronfa'n hanfodol, a does dim amheuaeth y bydd yr effeithiau ar gyllid y Cyngor yn parhau ar ryw ffurf neu'i gilydd. Ochr yn ochr â'r mesurau eraill dros dro, bydd hyn yn lliniaru rhag yr effeithiau, ac wrth wneud hynny yn ein galluogi i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a buddsoddiadau newydd wrth ddefnyddio adnoddau
untro.

£1,463k

Y DRETH GYNGOR

Yn olaf, y Dreth Gyngor. Buom yn ymgynghori ar gynnydd o 3.7% i'r Dreth Gyngor. Gyda'r cynnydd hwn, byddai ein cyfraddau'n dal i fod gyda'r isaf yng Nghymru ac, yn wir, yn y DU. Fodd bynnag, rwyf wedi mynegi'n glir fy mwriad i wrando ar ein preswylwyr a bod yn ystyriol o'r pwysau parhaus ar gyllid aelwydydd. Gan hynny, byddai'r Cabinet yn gostwng y cynnydd arfaethedig i'r dreth Gyngor i 2.4%, a byddai hyn yn costio £828k.

Bydd y buddsoddiadau a amlinellwyd uchod sy'n creu cyfanswm o £3.969m yn cael eu gwrthbwyso gan y cynnydd oherwydd chwyddiant sy'n is na'r disgwyl ac a gadarnhawyd yn ddiweddar ar ardollau'r cyngor o £77k, gan gydbwyso'r gyllideb

£828k

(£77k)

Y cyfanswm sy'n weddill i'w ddyrannu -

Eglurodd yr Arweinydd agweddau ar y gyllideb:

Hyd yma, ar gyfer busnesau:

- cymorth gyda grantiau busnes cysylltiedig â Covid,
- gweinyddu rhyddhad ardrethi, bellach ar ei ail flwyddyn, gyda chynllun mwy cyfyngedig hefyd ar y gweill ar gyfer 2022/23.
- cynyddu ein cynllun grantiau busnes yma'n lleol, gyda buddsoddiad untro o £250k o danwariant 2020/21.

Ar gyfer cymunedau:

- eu cefnogi nid yn unig drwy ein gwasanaethau o ddydd i ddydd ond hefyd drwy fuddsoddiadau untro penodol o danwariant 2020/23 ar gyfer nifer o fentrau, fel:
- £500K i greu cronfa adfer cymunedau ar ôl Covid
- Gwasanaethau'r Ddinas, £500k i adnewyddu a glanhau mannau agored
- £170k ar gyfer 'Cariad' Casnewydd
- £180K ar gyfer cynlluniau garddio cymunedol
- darparu buddsoddiad parhaol o dros £150k yng nghyllideb y flwyddyn gyfredol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau a mentrau i gynyddu balchder yn ein dinas ymhellach, a

chanfod ffyrdd o gefnogi a meithrin cysylltiadau â'r cymunedau lleol, a rhwng y cymunedau lleol sydd ynddi.

Byddai'r gyllideb hon a gyflwynir yma heddiw yn adeiladu ar y rhain, er enghraifft roedd y Cabinet yn canolbwyntio ar fannau gwyrdd, yn cynnig lefelau uwch o fuddsoddiad y yr adnoddau pwysig hyn. Cafodd pandemig Covid-19 gryn effaith ar fywydau pobl. Profwyd bod treulio amser yn yr awyr agored ac mewn mannau gwyrdd o fudd mawr i'n llesiant meddyliol a chorfforol. Bwriad y Cabinet oedd y byddai buddsoddi ymhellach mewn parciau a mannau yn yr awyr agored yn annog preswylwyr a theuluoedd i ddefnyddio'r mannau hyn, gan greu mwy o gyswllt rhyngddynt a'r amgylchedd naturiol, a hefyd â'u cymunedau lleol.

Yn ogystal â'r cyllid refeniw parhaol o £300k dros ddwy flynedd i gynnal a chadw ein mannau chwarae a'n hoffer, rydym yn bwriadu gwneud buddsoddiad untro o £2.5m mewn parciau a mannau agored. Byddai hyn yn cael ei gyllido drwy'r tanwariant refeniw ar ddiwedd y flwyddyn.

Bwriad y Cabinet oedd datblygu a pharhau â'n cefnogaeth i ganol ein dinas, gan fuddsoddi bron i hanner miliwn o bunnoedd yng nghanol ein dinas dros y ddwy flynedd nesaf i hyrwyddo'r ddinas, annog twristiaeth a gwella'r amgylchedd cyffredinol yn y ddinas a'r cyffiniau. Byddai menter i roi cymorth pellach i fusnesau canol y ddinas yn cael ei darparu yng Nghyngor mis Mawrth.

Yn ogystal â hyn: buddsoddiad o fwy na £8m yn yr ysgolion, gofal cymdeithasol o fwy na £6.5m, gyda ffocws ar wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Yn ogystal â buddsoddi mewn gwasanaethau tai a digartrefedd a darparu'r capasiti i symud tuag at ein huchelgais o garon sero net.

Dyma'r blaenoriaethau cywir wrth inni edrych y tu hwnt i heriau'r ddwy flynedd ddiwethaf. Byddai'r blaenoriaethau hyn yn llywio ein gwaith i ymdrin â heriau newydd, ond hefyd i fanteisio ar gyfleoedd newydd yn y dyfodol.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Dywedodd y Cynghorydd R Jeavons fod cyfraddau ailgylchu'n agos at 70% diolch i breswylwyr Casnewydd. Byddai'r £55K ychwanegol o gymorth i fynd heibio'r 70% ac o gymorth i gyrraedd targedau ailgylchu'r dyfodol. Mae'r Cyngor wedi gwrando ar ei breswylwyr, a byddai wedi ystyried costau ynni yn y dyfodol yn ogystal â'r ffaith bod Cyngor Dinas Casnewydd gyda'r isaf o ran y dreth gyngor.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Truman at y cynnydd mewn costau byw. Roedd y gyllideb yn fuddsoddiad mewn pobl, gan gynnwys pobl sy'n agored i niwed. Roedd y gyllideb hefyd yn cefnogi busnesau ac yn gyllideb flaengar. Ers y pandemig, ddwy flynedd yn ôl, roedd ymgynghoriad eang wedi'i gynnal ar hyn eleni, ac roedd pobl wedi dangos diddordeb drwy gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

- Roedd y Cynghorydd Davies yn cefnogi sylwadau ei chyd-aelodau gan ychwanegu ei bod hi'n gyfnod anodd, oherwydd y cynnydd mewn costau byw a'r argyfwng tanwydd. Roedd y buddsoddiad ychwanegol i godi safonau byw yn ganmoladwy, a dyna oedd y cam cywir i fodloni anghenion y preswylwyr. Fel yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau, buddsoddi £8.8m mewn gwasanaethau addysg a chydnabod pa mor fregus yw plant Casnewydd o ganlyniad i'r pandemig oedd y peth cywir i'w wneud. Roedd ysgolion yn ganolog i'r gymuned leol, yn darparu parseli bwyd a dillad. Byddai'r cyllid hefyd yn cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ogystal â darpariaeth prydau ysgol, a bu cynnydd o 118% yn y nifer a oedd yn derbyn prydau ysgol yn y blynyddoedd diwethaf.

- Diolchodd y Cynghorydd Mayer i'r Arweinydd am ei chyflwyniad ac am y gwaith caled a wnaed ar hyn. Roedd gwaith ar gyllideb eleni wedi dechrau cyn gynted ag y cytunwyd ar y

gyllideb flaenorol.  Roedd y Cyngor wedi ymgynghori'n eang â chynrychiolwyr yr undebau llafur yn ogystal â phreswylwyr Casnewydd.

- Roedd y Cynghorydd Hughes yn falch o fod yn aelod o Gabinet a oedd yn canolbwyntio ar y bobl yr oedd yn eu gwasanaethu, ac ar wella'r ddinas.  Roedd y gyllideb yn ffafrio holl aelodau'r ddinas, ac yn cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed.

- Roedd y gyllideb hefyd yn destun balchder i'r Cynghorydd Harvey, ac roedd yn falch ei bod yn cynnwys buddsoddiad mewn parciau a mannau agored.

- Ategodd y Cynghorydd Cockeram y sylwadau a llongyfarch yr Arweinydd ar y gyllideb a gyflwynwyd.

Penderfyniad:
Bod y Cabinet yn cytuno â'r canlynol:

Cynigion y gyllideb a chynllun tymor canolig (adran 3-5)
- Nodi'r ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb fel yr amlinellwyd yn adran 4 a'r adborth a gafwyd, a ddangosir yn atodiadau 1 i 4.

- Nodio'r Asesiad Effaith Tegwch a Chydraddoldeb ar gynigion y gyllideb, a ddangosir yn atodiad 9.

- Adolygu a chadarnhau cynigion y gyllideb (atodiadau 5-6), yn unol â'r crynodeb cyfredol ohonynt yn y cynllun ariannol tymor canolig (atodiad 7) a dyrannu'r hyblygrwydd ariannol a ddangosir yn nhabl 4.

- Wrth wneud hynny, darparu isafswm o £500k o'r hyblygrwydd ariannol cyfredol ar gyfer risg barhaus Covid / dim Cronfa Galedi, a chytuno i ailddosbarthu'r cyllidebau a amlinellwyd ym mhara 6.8 a'r cronfeydd i'r un diben, gan nodi y byddai angen monitro'r risg yn barhaus wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

- Cytuno a ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer 2022/23, fel y'u dangosir yn atodiad 11.

- Nodi bod y buddsoddiad o hyd at £8,003k yng nghyllidebau'r ysgolion yn seiliedig ar gynnydd tybiedig yng nghyflogau athrawon/NJC o 4% o fis Medi 2022, yn ogystal â chyflwyno darpariaeth newydd/ehangu darpariaeth mewn ysgolion, fel y nodir ym mharagraff 3.8 i 3.13.

- Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo bod y ddarpariaeth ar gyfer cyflogau'n cael ei chadw mewn cronfa 'wrth gefn' o fewn y Gyllideb Ysgolion Unigol a'i dosbarthu i gyllidebau ysgol unigol oddi yno cyn gynted ag yr oedd y dyfarniad cyflog cytunedig yn hysbys, gyda'r bwriad o gyllido'r dyfarniad cyflog cytunedig hyd at y ddarpariaeth a oedd ar gael o fewn y gyllideb.

Y gyllideb refeniw gyffredinol a'r dreth gyngor yn deillio o hynny 22/23 (adran 6 a 7)
- Nodi argymhellion y Pennaeth Cyllid, sef y dylid cadw balansau'r Gronfa Gyffredinol ar £6.5 miliwn o leiaf, cadarnhau cadernid y gyllideb gyffredinol a oedd yn sail i'r cynigion a digonolrwydd y cronfeydd cyffredinol yng nghyd-destun cronfeydd clustnodedig eraill a swm wrth gefn o £1.4 miliwn yn y gyllideb refeniw.

- Nodi lefel gyfredol treth gyngor Cyngor Dinas Casnewydd a gwerth ariannol cynnydd canrannol amrywiol, a'r modd y mae hyn yn cymharu â lefelau'r dreth gyngor mewn cynghorau eraill, fel y dangosir yn nhabl 5.

- Argymell cyllideb net gyffredinol a threth gyngor yn deillio o hynny i'r Cyngor llawn, gan nodi y byddai penderfyniad ffurfiol, gan gynnwys praeseptau Comisiynydd yr Heddlu a

Throseddu ar gyfer Gwent a phraeseptau'r Cynghorau Cymuned yn cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor ar 1 Mawrth.

 Argymell cyllideb net gyffredinol a chynnydd o 2.4% i'r dreth Gyngor yn deillio o hynny i'r Cyngor llawn, gan nodi y byddai cynnig ffurfiol , gan gynnwys praeseptau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a'r Cynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor ar 1 Mawrth.

 Cymeradwyo gwariant a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn unol â'r crynodeb a ddangosir yn atodiad 10b, gan nodi eu bod yn seiliedig ar gynigion manwl a adolygwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2022.

6 **Deilliannau Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 a 5 wedi'u Gwirio**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'w chyd-aelodau ar y Cabinet, a amlygai'r canlynol:

**Canlyniadau Haf 2021**

Mae’r gwaith o gyfrifo a chyhoeddi mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a mesurau perfformiad etifeddol y chweched ar gyfer blynyddoedd academaidd 2020 i 2021 a 2021 i 2022 wedi'i ohirio.

Ni fyddai data dyfarniadau cymhwyster yn cael eu defnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad mewn ysgol, nac ar raddfa awdurdod lleol a chonsortiwm lleol, ac ni cheir eu defnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau eu dysgwyr.

Byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau data arferol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, gyda rhai datganiadau wedi'u gohirio am flwyddyn neu fwy o'r blynyddoedd yr amharwyd arnynt gan y coronafeirws, neu am gyfnod a oedd heb ei benderfynu.

Roedd yn dal yn ofynnol i bob ysgol a darparydd ôl-16 gynnal hunanwerthusiad effeithiol i gefnogi gwelliant parhaus. Yn rhan o hyn byddai'r ysgolion, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol a chonsortia lleol, yn defnyddio'r wybodaeth lefel dysgwyr a oedd ganddynt yn gysylltiedig â chyrhaeddiad, a deilliannau eraill i fyfyrio ar eu trefniadau presennol, a gwella'r trefniadau hynny.

Ni fyddai ysgolion yn cael eu gosod mewn categorïau ym mlwyddyn academaidd 2021 i 2022. Roedd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion er mwyn helpu i ddarparu'r cymorth i ysgolion yr oedd arnynt ei angen er mwyn gwella a gweithredu ein diwygiadau uchelgeisiol yn llwyddiannus.

Cafodd Rheoliadau Perfformiad Ysgolion a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 eu dirymu yn 2020, gan olygu nad oedd yn ofynnol mwyach i ysgolion osod a chyhoeddi targedau.)

**Cwricwlwm i Gymru a Chanllawiau Gwella Ysgolion Drafft Llywodraeth Cymru**

Byddai cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir yng Nghymru o fis Medi 2022, Cwricwlwm i Gymru (CiG).

Ym mis Mawrth 2020 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ganllawiau gwella ysgolion drafft.  Nod y cynigion newydd oedd:

- Cryfhau pwysigrwydd ac effeithiolrwydd hunanarfarniadau a chynlluniau gwella gan ysgolion, sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth.
- Canolbwyntio ar hunanwerthusiadau ysgolion a blaenoriaethau gwella fel man cychwyn ar gyfer gwaith gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.
- Ystyried perfformiad ysgol yn ei ystyr ehangaf, gan werthuso ysgolion yn eu cyd-destun eu hunain, gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth, cynlluniau gwella a chefnogaeth bwrpasol i gefnogi hynny.
- Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella, a gaiff eu cyfuno mewn cynllun datblygu ysgol strategol cyfun.
- Adeiladu ar hunanwerthusiadau a chynlluniau datblygu ysgolion i weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gytuno ar y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt i wella.
- Canfod ysgolion â chryfderau a'r capasiti i gydweithio ag ysgolion eraill i'w cefnogi.

**Data ar gyfer Aelodau Etholedig**

Defnyddiodd ysgolion ystod o wybodaeth werthusol a data ar gynnydd yn sail ar gyfer arfer a darpariaeth yn y dyfodol, ac i fireinio hynny, gan siapio'u blaenoriaethau ar gyfer gwella. Roedd yr aelodau'n parhau i dderbyn data ar:

- Canlyniadau arolygiadau Estyn (o Dymor y Gwanwyn 2022) a chynnydd ysgolion mewn categorïau statudol (o dymor yr Hydref 2021).
- Gwybodaeth am bresenoldeb
- Gwybodaeth am waharddiadau
- Gwybodaeth gyd-destunol (byddai setiau data cyd-destunol PYADd% a Data Craidd Cymru Gyfan yn cael eu diweddaru)
- Fy Ysgol Leol gyda gwybodaeth wedi'i diweddaru ar y canlynol: (Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd)%, Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)%, Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL)% - cyfartaledd 3 blynedd treigl, gan gynnwys 7 mlynedd)
- Cynnydd Ysgolion sy'n Destun Pryder (gan gynnwys rhai o fewn yr ymagwedd aml-asiantaeth a'r rhai o fewn yr ymagwedd Tîm o Amgylch y Teulu rhanbarthol)
- Gwybodaeth Awdurdod Lleol am Gyllid, Adnoddau Dynol, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

Dechreuodd cyfarwyddwyr Consortia Dw Ddwyrain Cymru gynnal trafodaethau â Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) De Ddwyrain Cymru ynghylch yr ystod lawn o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am gyd-destun a pherfformiad ysgolion.  Byddai angen ymgynghori ymhellach er mwyn nodi'r wybodaeth fwyaf perthnasol ac ystyrlon i'w rhannu ag aelodau etholedig, gan gydnabod y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi'n awtomatig ar ôl cael ei chynnwys yn y broses graffu.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Dywedodd y Cynghorydd Davies wrth ei chyd-aelodau ei bod hi'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod systemau atebolrwydd â gofynion uchel yn methu gan amlaf wrth arwain gwelliannau parhaol mewn ysgolion. Roedd hyn oherwydd gorddibyniaeth ar ystod gyfyng o ddata perfformiad a oedd yn ysgogi ymddygiadau canlyniadol a oedd yn y pen draw'n effeithio ar unigolion a'r modd yr oeddent yn dysgu.

Roedd cydnabyddiaeth bellach fod ymagwedd gefnogol a thryloyw gydag adborth penodol yn creu twf, gyda buddsoddiad gonest mewn atebolrwydd a oedd yn arwain at wella'r ysgol gyfan ac at ddeilliannau gwell.

Er nad oedd data CA4 a CA5 yn cael eu defnyddio mwyach i fesur cyrhaeddiad, ac i gymharu ag ysgolion eraill, ac yn wir, y bu angen gohirio hynny yn ystod y pandemig, roedd hi'n dal i fod yn hanfodol i ysgolion ddeall a gwybod sut i gefnogi'u myfyrwyr i wella'u dysgu a'u helpu i baratoi am gystadleurwydd ym myd yr oedolion.

Byddai ysgolion yn parhau i ddefnyddio strategaethau asesu ffurfiannol ac ystod o wybodaeth werthusol i bennu datblygiad a pherfformiad unigolyn. Roedd ysgolion yn cael cynnig cymorth ac arweiniad pwrpasol gan yr AALl a'r GCA i sicrhau defnydd effeithlon o hunanwerthusiadau a thargedau gyda chanlyniadau mesuradwy.

Byddai aelodau etholedig yn parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ystod o fesurau a oedd eisoes ar waith. Roedd hi'n bwysig i aelodau etholedig gael dealltwriaeth o gyd-destun mewn perthynas â pherfformiad ein hysgolion yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i gyfrinachedd a'r risgiau cysylltiedig yr oedd y papur hwn yn cyfeirio atynt wrth gymharu. Roedd gwaith felly ar y gweill i bennu sut y byddai hyn yn digwydd.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Davies am ei chefnogaeth werthfawr a pharhaus.

<u>Penderfyniad:</u>
Bod y Cabinet:

1. Yn cydnabod y sefyllfa o ran perfformiad disgyblion.
2. Wedi ystyried unrhyw faterion a oedd yn codi y gallai'r Cabinet fod am dynnu sylw'r Prif Swyddog Addysg atynt.

7 **Strategaeth Bum Mlynedd yr Iaith Gymraeg**

Yn gyntaf, dywedodd yr Arweinydd wrth ei chyd-aelodau am farwolaeth Comisiynydd y Gymraeg, Aled Roberts, ddydd Sul 13 Chwefror. Roedd Aled yn gyn-Arweinydd Cyngor Wrecsam ac yn Aelod Cynulliad dros ranbarth Gogledd Cymru yn 2011.

Roedd yn rhaid i'r Cyngor fodloni nifer o Safonau'r Gymraeg, a oedd yn cael eu gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Roedd Safon 145 yn gosod rhwymedigaeth ar y Cyngor i gyhoeddi strategaeth bum mlynedd a fyddai'n esbonio sut roeddem yn cynnig hyrwyddo a galluogi'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd.

Roedd y Safonau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Strategaeth gynnwys targed % ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, a datganiad i esbonio sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni.

Roedd hi'n bleser gan yr Arweinydd gael cyflwyno ein hail Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a oedd yn adeiladu ar y cysylltiadau, y gwaith da a'r cynnydd a wnaed dros y pum mlynedd diwethaf.

Roedd y Strategaeth yn cynrychioli esblygiad o’n cynllun ar gyfer 2017 – 2022, gyda ffocws ar gyflawni gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd a oedd yn cynnwys ein holl gymunedau amrywiol, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a bodloni rhwymedigaethau statudol.

Roedd y Strategaeth yn rhoi adlewyrchiad o Gasnewydd fel dinas Gymreig â chyfoeth o gymunedau amlddiwylliannol ac amlieithog. Roeddem am ddathlu’r Gymraeg fel rhan o’n hunaniaeth gyffredin, a chynyddu cyfleoedd i bawb weld, clywed, dysgu, defnyddio a charu ein hiaith genedlaethol.

Roedd hefyd yn cyfuno gwaith cyffrous yn gysylltiedig â'r Gymraeg ar draws ystod o feysydd, gan gynnwys ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd a'n gwaith gyda'n partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy ein Bwrdd Sgiliau Cywir.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar dyfu ystod y partneriaid a'r rhanddeiliaid a oedd yn ymgysylltu â'r Gymraeg, roeddem yn parhau â'n hymrwymiad i ddatblygu ein strwythurau a'n polisïau mewnol i gefnogi staff sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg, neu ddefnyddio'u sgiliau yn y gwaith.

Byddai'r Strategaeth hon yn sbardun a ffocws ar gyfer y pum mlynedd nesaf wrth inni barhau i godi proffil y Gymraeg ar draws y ddinas, gan gefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chreu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cyng. Jason Hughes, Aelod Eiriolwr y Gymraeg, ddweud ambell air.

Rhannodd y Cynghorydd Hughes ei deimladau ynghylch marwolaeth Aled, gan fynegi cydymdeimlad â'i deulu a'i ffrindiau.

Mae'r strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd-Bod pawb yn gallu gweld; clywed; dysgu, defnyddio a charu'r Gymraeg.

Er bod ein targed ar gyfer twf yn canolbwyntio ar addysg, rydym yn cydnabod bod angen uchelgais ehangach ar gyfer y Gymraeg yng Nghasnewydd er mwyn gwneud yr iaith yn hygyrch a gynhwysol fel y gall ein holl drigolion ymgysylltu a hi.

I gyflawni hyn rydym wedi datblygu tair thema strategol sy'n canolbwyntio ar Addysg, Cymunedau a Diwylliant, a Chyflogaeth a Sgiliau.

Cafodd cyfres o gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r themâu hyn eu cynnwys yn y strategaeth a byddai'r rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus, yn enwedig yng ngoleuni data newydd o'r cyfrifiad a allai dweud mwy wrthym am broffil ieithyddol Casnewydd.

Byddwn hefyd yn defnyddio strwythurau llywodraethu presennol i fonitro cynnydd y Strategaeth, gan gynnwys drwy ein Bwrdd Sgiliau Cywir, Grŵp Gweithredu'r Gymraeg a Fforwm Cymraeg. Adroddir yn gyhoeddus ar gynnydd y strategaeth fel rhan o'n hadroddiad blynyddol ar y Gymraeg, y mae'n ofynnol ei gyhoeddi bob blwyddyn ariannol.

Diolch yn fawr Arweinydd

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Diolchodd y Cynghorydd Mayer i'r Cynghorydd Hughes fel Eiriolwr y Gymraeg ac i'r Arweinydd. Diolchodd y Cynghorydd Mayer i Tracy McKim, yn ei rôl fel Swyddog Polisi, Partneriaeth a Chynnwys a'r tîm fu wrthi'n ymwreiddio hyn. Yn olaf diolchodd y Cynghorydd Mayer hefyd i Heather Powell, Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig, am ei gwaith caled a'i chefnogaeth. Roedd Heather yn gadael y Cyngor, a dymunodd y Cynghorydd Mayer yn dda iddi wrth iddi gychwyn llwybr gyrfa newydd.

- Ategodd y Cynghorydd Davies y ddiolch ei gydweithwyr. Roedd yr adroddiad yn myfyrio ar darged y CSGA ac yn mabwysiadu'r blaenoriaethau hynny i gyrraedd targed o 1M o siaradwyr erbyn 2050.

<u>Penderfyniad:</u>
Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth ddrafft cyn ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth.

## 8 **Porth y Gorllewin**

Sefydlwyd Porth y Gorllewin ym mis Tachwedd 2019. Partneriaeth strategol ydoedd a anelai i ddarparu pwerdy economaidd ar hyd coridorau'r M4 a'r M5, gan sbarduno twf ar y naill ochr a'r llall i Afon Hafren. Fel un o bum dinas, roedd Casnewydd yn chwarae rhan allweddol yn llwyddiant y bartneriaeth, ac yn debygol o elwa ar fanteision cydweithio gwell. Fel partneriaeth, roedd gennym bron 4.4 miliwn o breswylwyr, oddeutu 160,000 o fusnesau a thua 2.1 miliwn o swyddi. Roedd gennym hefyd gysylltedd ardderchog â thraffyrdd a ffyrdd pwysig, 2 faes awyr a 9 porthladd.

Ers mis Gorffennaf 2020, ehangwyd aelodaeth bwrdd y bartneriaeth i gynnwys cynrychiolwyr o bartneriaethau economaidd lleol, prifysgolion a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Roedd y Bwrdd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr wedi'u penodi o fyd busnes, ac yn eu plith yr oedd Ian Edwards, Prif Weithredwr y Celtic Manor Resort.

Cynhaliwyd Adolygiad Economaidd Annibynnol yn nhymor yr Hydref 2021 a ystyriai gryfderau a chyfleoedd economaidd Porth y Gorllewin, a'r modd y gellid arwain a chydgysylltu'r rhain i ysgogi datblygiad economaidd y rhanbarth. Dyma'r tair thema a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig a nodwyd.

- Arloesi - roedd gan Lywodraeth y DU darged uchelgeisiol i sicrhau cynnydd o £9bn ychwanegol y flwyddyn mewn gwariant cyhoeddus ar ymchwil a datblygu erbyn 2024/25, ac roedd y bartneriaeth yn archwilio'r potensial am Gronfeydd Arloesi.
- Sero Net – roedd toriad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050 ymhlith polisïau creiddiol Llywodraeth Cymru ac roedd Llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n gyfreithiol i ostwng allyriadau i Sero Net erbyn 2050. Mae £12bn o gymorth eisoes wedi'i neilltuo i gyflawni hyn. Mae'r potensial am ynni'r llanw yn Aber Afon Hafren yn cael ei archwilio, yn ogystal â chyfleoedd am hydrogen.
- Cysylltedd – hefyd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'r DU. Roedd y bartneriaeth yn canolbwyntio ar seilwaith rheilffyrdd strategol ac yn mapio rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol a rhanbarthol 'delfrydol' 2050 i ddeall lle'r oedd y bylchau, pa arbedion carbon y gellid eu sicrhau drwy newid dulliau teithio, a beth fyddai'r manteision economaidd i'r rhanbarth.

Roedd y bwrdd partneriaeth hefyd wedi ymrwymo i wella proffil ac amlygrwydd Porth y Gorllewin drwy gyfathrebu a digwyddiadau wedi'u targedu. Byddai'r Gynhadledd Agoriadol sydd i'w chynnal ar 8 Mawrth 2022 yn yr ICCW yn ddigwyddiad allweddol. Roedd cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ehangach hefyd yn cael ei ddatblygu a fyddai'n golygu cynhyrchu prosbectws newydd ac ailddylunio ac ailfrandio'r wefan.

Roedd y bwrdd partneriaeth yn awyddus i fod yn bresennol mewn digwyddiadau rhyngwladol pwysig, gan gynnwys yr MIPM ym mis Mehefin, lle gellid hyrwyddo cyfleoedd y rhanbarth ymhlith cwmnïau a buddsoddwyr rhyngwladol. Byddai Porth y Gorllewin yn cael ei gynrychioli ar stondinau a oedd wedi'u meddiannu eisoes gan Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd/Caerdydd. Roedd diddordeb hefyd mewn cael ardal benodol yn Fforwm Buddsoddi mewn Eiddo Tirol a Seilwaith y DU ym mis Mai. Yn rhan o Borth y Gorllewin, byddai gan Gasnewydd bresenoldeb yn y digwyddiadau hyn ac mae deunydd hyrwyddo yn cael ei ddatblygu i gyflwyno Casnewydd i gynulleidfa ryngwladol a dylanwadol.

Roedd y bartneriaeth yn gweithredu o dan Reolau Sefydlog a Chylch Gorchwyl y cytunwyd arnynt ym mis Mawrth 2020. Roedd y Bwrdd wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru, ac roedd copi o hwnnw wedi'i atodi i'r adroddiadau gan sicrhau trefniadau llywodraethu priodol.

Roedd Porth y Gorllewin wedi'i gyllido'n bennaf drwy daliad capasiti gan Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau. Gofynnwyd am gyllid parhaus o'r Adolygiad o Wariant, ond roedd cyfraniad ariannol blynyddol o £10,000 yn cael ei geisio gan bartneriaid i gefnogi gwaith yr Ysgrifenyddiaeth.

Roedd Porth y Gorllewin yn cael ei gynnal gan Gyngor De Swydd Gaerloyw, sef corff atebol y bartneriaeth, a oedd felly'n gyfrifol am y gyllideb. Roedd staff ysgrifenyddol hefyd yn cael eu cyflogi, ond cydnabuwyd bod gan awdurdodau partner rwymedigaethau, pe bai'r bartneriaeth yn methu. Er bod y risg hon yn cael ei hystyried yn isel iawn, nes bod cyllideb barhaus wedi'i sicrhau o'r Adolygiad o Wariant, roedd y rhwymedigaethau hyn yn parhau, a gofynnwyd i'r holl bartneriaid gytuno i Gytundeb Indemnio.

Yn gyffredinol, roedd Porth y Gorllewin yn dal i gynnig cyfle i Gasnewydd. Cyfle i fod yn rhan o bartneriaeth strategol gref a fyddai'n helpu busnesau a diwydiannau i gydweithio a rhannu syniadau arloesol ar sail ranbarthol. Byddai'n amhosib sicrhau buddion o'r fath ar ein pen ein hunain, ond drwy weithio mewn partneriaeth roedd rhagor o gyfleoedd yn codi, ac roedd uchelgeisiau Casnewydd o ran ei phroffil a'i thwf economaidd yn datblygu i fod yn fwy cyflawnadwy a realistig.

Roedd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth, ond roedd hi'n bwysig i Gasnewydd barhau i chwarae rhan allweddol yn y cyfle partneriaethol hwn, er mwyn helpu Casnewydd ar ei thaith ei hun tuag at adferiad economaidd.

Penderfyniad:
Bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi ymglymiad parhaus Casnewydd ym Mhorth y Gorllewin.

9 **Adroddiad Diweddaru Covid**

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad i'r Cabinet ynghylch yr adroddiad uchod.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r Cabinet hwn ym mis Ionawr, roedd amrywiant Omicron wedi cyrraedd uchafbwynt yng Nghasnewydd ac yng Nghymru. Fodd bynnag, dros y pythefnos diwethaf roedd cyfradd yr achosion wedi gostwng yn sylweddol.

Mewn ymateb i hyn, llaciodd Llywodraeth Cymru y cyfyngiadau'n ôl i lefel 0, gan olygu y gallai aelwydydd a busnesau ddychwelyd i fusnes arferol, ond gan gadw'r angen am bellter cymdeithasol a gorchuddion wyneb wrth fynd i mewn i leoliadau dan do ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylai gwasanaethau'r sector cyhoeddus weithio gartref lle bo modd.

Roedd gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i weithredu'n ôl yr arfer, hyd eithaf eu gallu, ond roedd galw a phwysau parhaus o hyd o fewn rhai gwasanaethau rheng flaen.

Roedd yr adroddiad hwn ac adroddiad Pontio o'r UE, y naill a'r llall, yn amlygu'r pwysau a'r ansicrwydd parhaus o flaen aelwydydd ledled Casnewydd a Chymru, a chyda'r argyfwng costau byw a achoswyd oherwydd y cynnydd ym mhrisiau ynni, bwyd a chostau tanwydd.

Roedd Cyngor Casnewydd yn ogystal â Llywodraeth Cymru yn cefnogi aelwydydd a busnesau a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r pwysau hyn. Roedd Cyngor Casnewydd wedi ymrwymo £100,000 yn ychwanegol er mwyn ymdrin â thlodi bwyd, gan gefnogi grwpiau ac elusennau bwyd.

Roeddem hefyd yn cefnogi cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf Llywodraeth Cymru a oedd wedi'i ymestyn hyd 28 Chwefror, â'r symiau wedi codi o £100 i £200.

Fel Aelodau Etholedig Casnewydd roedd hi'n bwysig inni gefnogi aelwydydd a phobl a oedd yn profi anawsterau, gan eu helpu i dderbyn y cymorth a'r arweiniad cywir dros y cyfnod anodd hwn.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

§ Achubodd y Cynghorydd Truman ar y cyfle i ddiolch i'r Timau Amgylcheddol a Safonau Masnach a wnaeth ailgydio yn eu rôl monitro ac olrhain dros gyfnod y Nadolig yn sgil y cynnydd sydyn oherwydd Omicron, ac a oedd bellach yn parhau â'u harolygiadau. Cytunai'r Arweinydd â hyn a diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r staff am eu cefnogaeth barhaus.

§ Yng ngoleuni amrywiant Omicron, ychwanegodd y Cynghorydd Davies fod ysgolion yn cynllunio i reoli cynnydd mewn lefelau salwch. Braf oedd nodi bod athrawon wedi ymaddasu er mwyn sicrhau na fyddai dosbarthiadau ysgol ar stop. Roedd hi'n anodd peidio cael y tîm llawn o staff addysgu a chymorth, a diolchwyd iddynt am eu hymdrechion, ac i'r Gwasanaeth Addysg am ei gefnogaeth barhaus a diflino.

§ Diolchodd y Cynghorydd Jeavons i Wasanaethau'r Ddinas am eu cyfraniad ac am barhau i gasglu gwastraff drwy gydol Omicron a'r tywydd garw. Diolchodd y Dirprwy Arweinydd hefyd i'r staff am eu cyfundrefn cynnal a chadw dros y gaeaf.

Penderfyniad:
Bod y Cabinet wedi ystyried a nodi cynnwys yr adroddiad, ac y byddai'r Cabinet/aelodau'r Cabinet yn derbyn diweddariadau gan swyddogion yn rhan o'u portffolio.

10 **Adroddiad Diweddaru Brexit**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a hysbysu ei chyd-aelodau am y cynnydd hyd yma. Roedd dros flwyddyn wedi mynd heibio ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'r Farchnad Sengl.

Drwy gydol y flwyddyn gwnaethom barhau i weld effeithiau eang, nid yn unig yn sgil ymadael â'r UE ond hefyd yn sgil effeithiau byd-eang Covid oherwydd cynnydd yn y galw o fewn economïau a tharfu ar gyflenwadau.

Cynyddodd costau byw i aelwydydd yng Nghasnewydd a Chymru drwy gydol y flwyddyn, gyda chyflogau heb fod yn ddigonol i dalu'r costau ychwanegol hyn,

Mewn aelwydydd incwm isel y gwelwyd effaith fwyaf y codiadau hyn, ac roedd disgwyl i brisiau ynni godi eto yn 2022.

Fel yr adroddwyd yn yr Adroddiad i'r Cabinet ar Adfer ar ôl Covid, roedd Llywodraeth Cymru ac elusennau/sefydliadau dielw eraill yn cynnig cymorth ariannol i aelwydydd dros y cyfnod hwn, a hefyd yn cynnig cyngor ar ddyledion a chyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth.

Parhaodd Cyngor Casnewydd i weinyddu grantiau a chymorth ariannol i gartrefi a busnesau yn y Ddinas.

- Roedd hyn yn cynnwys prosesu dros 7,000 o geisiadau am daliadau Tanwydd y Gaeaf a thalu'r grant i 6,253 o aelwydydd.
- Ar gyfer busnesau, roedd grantiau Ardrethi Annomestig wedi'u talu i 510 o fusnesau, gan greu cyfanswm o £1.3m.

Roed hi'n bwysig i aelwydydd a oedd yn gymwys i dderbyn y grant ymgeisio, er mwyn gallu eu helpu gyda'u costau ynni drwy'r cyfnod anodd hwn.

Hefyd, i Fusnesau yng Nghasnewydd roedd hi'n bwysig gwneud cais am y grant Ardrethi Annomestig, a hefyd i ymweld â'n gwefan a Busnes Cymru i weld pa gymorth a chyngor ariannol a oedd ar gael.

I ddinasyddion yr UE / AEE sy'n byw yng Nghasnewydd, roedd dros 10,000 o geisiadau am statws sefydlog wedi'u cwblhau, gyda 920 o geisiadau'n disgwyl penderfyniad (ar sail ffigurau'r Swyddfa Gartref hyd fis Medi 2021).

Ailbwysleisiodd y Cabinet ei gefnogaeth tuag at ddinasyddion yr UE/AEE sy'n byw ac yn gweithio yng Nghasnewydd, a'r ffaith bod gan bob un ohonynt ran i'w chwarae er mwyn gwneud Casnewydd yn ddinas wych i fyw a gweithio ynddi.

Roedd y Cabinet hwn yn annog unrhyw un a oedd yn disgwyl am benderfyniad neu a oedd ei chael hi'n anodd cwblhau eu cais i gysylltu â'r Cyngor a sefydliadau eraill fel Cyngor ar Bopeth.

Roedd Cyngor Casnewydd a'i bartneriaid yn parhau i gynnwys ac ymgysylltu â phreswylwyr o'r UE.  Roedd hi'n bwysig cael adborth o'r digwyddiadau hyn er mwyn inni ddeall sut y gallem barhau i gefnogi ein dinasyddion.

Roedd yn galonogol gweld bod 85% o ddinasyddion yr UE a fynychodd y digwyddiadau yn teimlo’n hapus yn byw yng Nghasnewydd ond roedd y Cabinet yn ymwybodol o’r heriau parhaus yr oeddent yn eu hwynebu i sicrhau bod Casnewydd yn parhau i fod yn ddinas ddiogel a chroesawgar.

Roedd y Cyngor yn parhau i weld cynnydd yn nifer y gwladolion o'r UE a thu hwnt yr oedd angen cymorth arnynt gan wasanaethu'r Cyngor, ond nad oeddent yn gallu gofyn am gymorth arian cyhoeddus.

Roedd grŵp atebion Caledi'r Cyngor yn cydgysylltu ymdrech y Cyngor a gwasanaethau dielw i gefnogi'r rhai yr oedd yn effeithio arnynt a cheisio atal eraill rhag camfanteisio ar y bobl hynny.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

§ Gofynnodd y Cynghorydd Harvey i'r preswylwyr hynny nad oeddent wedi gwneud cais am gymorth, i gysylltu â'u cynghorwyr ward a fyddai'n eu helpu i wneud cais am grantiau fel yr amlinellwyd gan yr Arweinydd.

§ Dywedodd y Cynghorydd Davies fod Casnewydd wedi teimlo effaith colli gweithwyr yr UE ar draws y proffesiwn iechyd a gofal, a bod hynny'n achosi problemau wrth recriwtio. Lansiwyd menter yn ddiweddar i gynnig profiad gwaith dydd, i ystyried cymwysterau a chynllun gwaith wedi'i deilwra i'r rhai a oedd yn ystyried ymuno â'r proffesiwn. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet fod angen gweithwyr o'r UE o hyd yng Nghasnewydd.

§ Cytunodd y Cynghorydd Cockeram â sylwadau'r Cynghorydd Davies, ac ychwanegodd fod angen dybryd am weithwyr gofal.

Penderfyniad:
Bod y Cabinet wedi ystyried a nodi cynnwys yr adroddiad, ac y byddai'r Cabinet/aelodau'r Cabinet yn derbyn diweddariadau gan swyddogion yn rhan o'u portffolio.

11 **Rhaglen Waith**

Dyma oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Cynnig i dderbyn y rhaglen wedi'i diweddaru.

Penderfyniad:

Bod y Cabinet yn cytuno ar y Rhaglen Waith.